OpenLearn

The Open University

Paratoi aseiniadau

Paratoi aseiniadau



OpenLearn | Free learning from The Open University

About this free course This free course is an adapted extract from an Open University course.

This version of the content may include video, images and interactive content that may not be optimised for your device.

You can experience this free course as it was originally designed on OpenLearn, the home of free learning from The Open University: www.open.edu/openlearn/free-courses.

Paratoi aseiniadau (Preparing assignments)

www.open.edu/openlearn/languages/welsh/paratoi-aseiniadau-preparing-assignments/content-section-0?utm_source=amazon&utm_campaign=ou&utm_medium=ebook

There you'll also be able to track your progress via your activity record, which you can use to demonstrate your learning.

Walton Hall MK7 6AA

Copyright © 2015 The Open University

Intellectual property

Unless otherwise stated, this resource is released under the terms of the Creative Commons Licence v4.0 http://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/deed.en_GB. Within that The Open University interprets this licence in the following way: www.open.edu/openlearn/about-openlearn/frequently-asked-questions-on-openlearn. Copyright and rights falling outside the terms of the Creative Commons Licence are retained or controlled by The Open University. Please read the full text before using any of the content.

We believe the primary barrier to accessing high-quality educational experiences is cost, which is why we aim to publish as much free content as possible under an open licence. If it proves difficult to release content under our preferred Creative Commons licence (e.g. because we can't afford or gain the clearances or find suitable alternatives), we will still release the materials for free under a personal end-user licence.

This is because the learning experience will always be the same high quality offering and that should always be seen as positive – even if at times the licensing is different to Creative Commons.

When using the content you must attribute us (The Open University) (the OU) and any identified author in accordance with the terms of the Creative Commons Licence.

The Acknowledgements section is used to list, amongst other things, third party (Proprietary), licensed content which is not subject to Creative Commons licensing. Proprietary content must be used (retained) intact and in context to the content at all times.

The Acknowledgements section is also used to bring to your attention any other Special Restrictions which may apply to the content. For example there may be times when the Creative Commons Non-Commercial Sharealike licence does not apply to any of the content even if owned by us (The Open University). In these instances, unless stated otherwise, the content may be used for personal and non-commercial use.

We have also identified as Proprietary other material included in the content which is not subject to Creative Commons Licence. These are OU logos, trading names and may extend to certain photographic and video images and sound recordings and any other material as may be brought to your attention.

Unauthorised use of any of the content may constitute a breach of the terms and conditions and/or intellectual property laws.

We reserve the right to alter, amend or bring to an end any terms and conditions provided here without notice.

All rights falling outside the terms of the Creative Commons licence are retained or controlled by The Open University.

Head of Intellectual Property, The Open University

Edited and designed by The Open University.

Contents

Introduction 5
Learning Outcomes 6
1 Mathau o aseiniadau 7
1.1 Traethodau 7
1.2 Adroddiadau 7
1.3 Aseiniadau llafar 9
1.4 Aseiniadau atebion byr 9
1.5 Aseiniadau a gaiff eu marcio gan gyfrifiadur 10
1.6 Aseiniadau ar ddiwedd cwrs 10
2 Camau cynllunio aseiniad 11
2.1 Creu eich strategaeth eich hun 11
2.2 Gwybod beth sydd ei angen 12
2.3 Trefnu beth i'w wneud 12
2.4 Drafftio 13
2.5 Gwirio 15
2.6 Cyflwyno'r gwaith 15
2.7 Cael y gwaith yn ôl 15
3 Deall y cwestiwn 16
3.1 Geiriau cynnwys 16
3.2 Geiriau proses 16
4 Cyflwyniadau a chasgliadau 18
4.1 Cyflwyniadau 18
4.2 Casgliadau 18
5 Ysgrifennu paragraffau 20
5.1 Geiriau cyswllt 21
6 Aralleirio, dyfynnu a chyfeirio 22
6.1 Arferion da 22
6.2 Cyfeirio 22
6.3 Aralleirio 23
6.4 Dyfynnu 23
7 Dewis arddull ysgrifennu 24
8 Gwella eich Cymraeg ysgrifenedig 26
8.1 Ysgrifennu ar gyfer y brifysgol 26
8.2 Gramadeg, sillafu ac atalnodi 26
8.3 Eich tiwtor a'ch swyddfa ranbarthol 27
Y camau nesaf 28
Keep on learning 29
Acknowledgements 29

Introduction

You can experience this free course as it was originally designed on OpenLearn, the home of free learning from The Open University: www.open.edu/openlearn/free-courses.

Paratoi aseiniadau (Preparing assignments)

www.open.edu/openlearn/languages/welsh/paratoi-aseiniadau-preparing-assignments/content-section-0?utm_source=amazon&utm_campaign=ou&utm_medium=e-book

Mae cyrsiau prifysgolion yn amrywio o ran y mathau o aseiniadau sy'n ofynnol. Gellid gofyn i chi gwblhau unrhyw rai o'r canlynol.

- Traethodau
- Adroddiadau
- Aseiniadau llafar
- Aseiniadau atebion byr
- Aseiniadau a gaiff eu marcio gan gyfrifiadur
- Asesiadau ar ddiwedd y cwrs

Ceir disgrifiad byr o bob un o'r rhain isod ond bydd deunyddiau eich cwrs yn rhoi syniad llawer gwell i chi o'r hyn sy'n ofynnol gennych.

> 'Dwi'n teimlo na alla'i ennill. Dwi'n dangos fy ngwendidau.'

Efallai y byddwch yn teimlo ar goll pan gewch eich aseiniad cyntaf ond peidiwch â phoeni, nid oes disgwyl i chi wneud gwaith perffaith o'r cychwyn cyntaf. Bydd yn rhaid i chi fod yn amyneddgar a gallwch ddisgwyl i'ch sgiliau wella dros amser.

Learning Outcomes

Ar ôl i chi gwblhau'r uned hon, byddwch:

- wedi dysgu am y mathau gwahanol o aseiniad, gan gynnwys aseiniadau llafar, aseiniadau atebion byr ac aseiniadau a gaiff eu marcio gan gyfrifiadur
- yn deall sut i gynllunio a gwirio eich aseiniadau
- wedi datblygu sgiliau er mwyn deall cwestiynau aseiniadau
- wedi dysgu sut i ysgrifennu cyflwyniadau a chasgliadau effeithiol
- wedi dysgu sut i ysgrifennu a datblygu paragraffau
- yn deall sut i aralleirio, dyfynnu a chyfeirio yn eich aseiniad
- wedi dysgu sut i ddewis arddull ysgrifennu briodol
- wedi cael rhai awgrymiadau i helpu i wella eich Saesneg ysgrifenedig.

1 Mathau o aseiniadau

You can experience this free course as it was originally designed on OpenLearn, the home of free learning from The Open University: www.open.edu/openlearn/free-courses.

Paratoi aseiniadau (Preparing assignments)

www.open.edu/openlearn/languages/welsh/paratoi-aseiniadau-preparing-assignments/content-section-0?utm_source=amazon&utm_campaign=ou&utm_medium=e-book

1.1 Traethodau

Mae traethodau'n cynnwys cyflwyniad, corff y traethawd a chasgliad. Mae gan bob un o'r rhain swyddogaeth wahanol.

Mae traethodau'n cynnwys cyflwyniad, corff y traethawd a chasgliad. Mae gan bob un o'r rhain swyddogaeth wahanol.

Dylai'r cyflwyniad (tua 5-10 y cant o'r cyfrif geiriau) amlinellu prif bwnc eich traethawd, pennu eich prif ddadl a nodi camau eich dadl. Mae ailgyfeirio at gwestiwn y traethawd mewn rhyw ffordd yn aml yn ffordd dda o amlinellu eich pwnc, ac yn yr un modd nodi unrhyw brif faterion sy'n ymwneud ag ef.

Byddwch yn nodi eich prif ddadl yng nghorff y traethawd (tua 80-90 y cant o'r cyfrif geiriau). Dylai lifo'n draethiadol gan nodi'r gwahanol bwyntiau yn eich dadl yn drefnus. Dylai eich darllenydd allu dilyn 'stori' gydlynol a pharhaus o'r dechrau i'r diwedd.

Dylai'r crynodeb (tua 5-10 y cant o'r cyfrif geiriau) grynhoi'r materion a godwyd gennych yng nghorff eich aseiniad a chwblhau eich dadl. Dylai bwysleisio elfennau allweddol eich dadl ac yn aml mae'n syniad da cyfeirio unwaith eto at y cwestiwn.

1.2 Adroddiadau

Rhennir adroddiadau yn adrannau penodol sy'n amrywio yn ôl y math o adroddiad y gofynnir i chi ei ysgrifennu. Mae'n bosibl y bydd angen yr holl adrannau hyn mewn rhai mathau o adroddiad. Ar gyfer mathau eraill o adroddiad, efallai na fydd angen i chi gynnwys adran ar fethodoleg, er enghraifft. Dylech gyfeirio at ddeunyddiau eich cwrs a gofyn i'ch tiwtor pa fath o adroddiad y mae disgwyl i chi ei ysgrifennu a'r adrannau y mae angen i chi eu cynnwys.

Rhennir adroddiadau yn adrannau penodol. Dylech gyfeirio at ddeunyddiau eich cwrs a gofyn i'ch tiwtor pa fath o adroddiad y mae disgwyl i chi ei ysgrifennu a'r adrannau y mae angen i chi eu cynnwys.

Blwch 1 Adrannau mewn adroddiad

- Teitl

- Crynodeb (neu grynodeb gweithredol)
- Cyflwyniad
- Methodoleg
- Canlyniadau (canfyddiadau)
- Prif gorff (trafodaeth)
- Casgliadau
- Cyfeiriadau a chydnabyddiaethau

Mae'r crynodeb yn rhan fer, annibynnol o'r adroddiad sy'n disgrifio ei gwmpas a'r prif ganfyddiadau. Dyma'r peth olaf y dylech ei ysgrifennu oherwydd bydd angen i chi gwblhau'r adroddiad cyn y gallwch ei ddisgrifio'n ddigonol.

Gellir rhannu corff eich adroddiad yn is-adrannau, y gallwch eu Gellir rhannu corff eich adroddiad yn is-adrannau, y gallwch eu rhifo.

Mae'r cyflwyniad yn nodi diben a chwmpas yr adroddiad ac yn aml mae ffordd benodol o'i ysgrifennu. Amlinellwch nod yr ymchwiliad neu'r arbrawf a rhestrwch yr amcanion neu'r canlyniadau a fwriedir. Dylai eich cyflwyniad roi gwybodaeth gefndirol hefyd er mwyn egluro'r rheswm dros yr ymchwiliad. Dylech ddod â'ch cyflwyniad i ben gyda brawddeg sy'n arwain at gorff eich adroddiad.

Defnyddir yr adran ar fethodoleg, lle y bo angen, i ddisgrifio pob cam o'r ymchwil a wnaed gennych. Er enghraifft, a wnaethoch gynnal cyfweliadau neu arbrofion, ac os felly, gyda phwy? Sut y gwnaethoch fesur eich canlyniadau?

Mae'r adran ganlyniadau yn disgrifio canfyddiadau eich ymchwil mewn modd clir a chryno. Peidiwch â son am oblygiadau eich canfyddiadau yma; dylech wneud hynny ym mhrif gorff eich adroddiad. Mae tablau, graffiau a diagramau yn ffyrdd defnyddiol o gyflwyno canfyddiadau meintiol.

Yn eich adroddiad, bydd disgwyl i chi drafod eich canfyddiadau yn fanwl drwy ddadansoddi a dehongli eich canlyniadau ac esbonio eu pwysigrwydd.

Gellir rhannu corff eich adroddrad yn is-adrannau, y gallwch eu rhifo. Mae'n bosibl y bydd gofynion penodol o ran y modd rydych yn trefnu'r wybodaeth yng nghorff eich adroddiad ar gyfer eich cwrs. Gellir ei chyflwyno:

- mewn trefn gronolegol
- fel datganiad o'r broblem, gyda dadansoddiad dilynol o'r camau gweithredu posibl ac argymhelliad i gloi
- fel manteision ac anfanteision cynnig penodol ac yna'r camau gweithredu a argymhellir

Waeth pa ffordd bynnag y byddwch yn trefnu corff eich adroddiad, bydd disgwyl i chi drafod eich canfyddiadau yn fanwl drwy ddadansoddi a dehongli eich canlyniadau ac esbonio eu pwysigrwydd.

Dylai'r casgliad fod yn fyr - ei ddiben yw crynhoi prif bwyntiau eich adroddiad yn yr un ffordd ag y byddai mewn aseiniad ar ffurf traethawd. Ni ddylid cyflwyno unrhyw wybodaeth na phwyntiau newydd yn eich casgliad.

1.3 Aseiniadau llafar

Defnyddir aseiniadau llafar yn aml mewn cyrsiau iaith, lle mae disgwyl i chi recordio eich hun yn siarad yn yr iaith dramor rydych yn ei hastudio. Bydd gwneud nodiadau i gyfeirio atynt wrth recordio eich cyflwyniad yn eich helpu. Fodd bynnag, mae'n bwysig siarad yn naturiol ac osgoi'r arddull undonog sy'n deillio o ddarllen yn syth o sgript. Ceisiwch ddefnyddio nodiadau fel cymhorthion cof yn hytrach na sgript, gan fwrw golwg drostynt o bryd i'w gilydd er mwyn galw gwybodaeth i gof, a pharatowch rai brawddegau megis: yn gyntaf, yn ail, i'r gwrthwyneb, i gloi.

Nodwch arwyddion i fyny neu i lawr uwchben y rhannau hynny o'r frawddeg lle y dylech godi a gostwng goslef eich llais - y patrwm goslef.

Amlygwch eiriau allweddol neu'r geiriau hynny rydych yn cael anhawster i'w dweud, a thanlinellwch neu amlygwch y rhannau penodol o eiriau neu ymadroddion anghyfarwydd i ddangos ble y dylid rhoi'r pwyslais. Er enghraifft, yn Gymraeg:

> pwyslais, patrwm

ac yn Ffrangeg:

> touristes, table

Gwnewch yn siŵr bod eich nodiadau yn ddigon syml a bod eich ysgrifen yn ddigon mawr fel y gallwch eu dilyn yn hawdd. Mae nodiadau cymhleth neu fanwl mewn ysgrifen fach yn anodd i'w defnyddio. Mae nodiadau yn fwy defnyddiol na brawddegau llawn.

Ceisiwch ymarfer dweud eich ymatebion ar gyfer yr aseiniad cyn i chi recordio eich cais. Gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi eich enw, teitl y cwrs, eich rhif Adnabod Personol a hyd y cyflwyniad ar y recordiad. Cofiwch gadarnhau ar y diwedd bod eich cyflwyniad cyfan wedi'i recordio'n llwyddiannus.

Dylech ymarfer recordio gan newid lefelau'r sain, er mwyn canfod pa lefel sy'n gweithio orau a pha mor bell y mae angen i chi sefyll oddi wrth y microffon wrth recordio.

1.4 Aseiniadau atebion byr

Rhennir yr aseiniadau hyn, neu rannau o'r aseiniadau, yn sawl adran, y mae angen ateb byr a chryno ar gyfer pob un. Gallai'r ateb fod rhwng 30 gair a 500 o eiriau.

Efallai y bydd yn ymddangos yn haws rhoi atebion byr na thraethodau hir, ond mae'r un mor bwysig darllen y cwestiwn yn ofalus ac ystyried y geiriau proses.

Efallai y bydd yn ymddangos yn haws rhoi atebion byr na thraethodau hir, ond mae'r un mor bwysig darllen y cwestiwn yn ofalus ac ystyried y geiriau proses (gweler Adran 3.2). Mae hefyd yn rhy hawdd gwyro oddi wrth y pwnc dan sylw, a mynd dros derfynau geiriau drwy gynnwys gwybodaeth amherthnasol. Cofiwch fod yn gryno, peidio â gwyro oddi wrth y pwnc dan sylw, a chadw o fewn y terfyn geiriau.

Defnyddir diagramau, tablau a graffiau yn aml mewn aseiniadau ysgrifenedig a gall y rhain fod yn ffordd ddefnyddiol a lliwgar o gyflwyno gwybodaeth. Gallant hefyd eich helpu i gadw at y terfyn geiriau.

1.5 Aseiniadau a gaiff eu marcio gan gyfrifiadur

Mae rhai cyrsiau yn defnyddio aseiniadau a gaiff eu marcio gan gyfrifiadur. Ceir cwestiynau ag atebion dewis lluosog ac fel arfer byddwch yn marcio blwch wrth ymyl yr ateb y credwch ei fod yn gywir. Er eich bod yn nodi'r atebion posibl, gall aseiniadau a gaiff eu marcio gan gyfrifiadur fod yr un mor heriol â mathau eraill o aseiniad ac mae angen meddwl o ddifrif ynghylch pa atebion sy'n gywir.

Gall aseiniadau a gaiff eu marcio gan gyfrifiadur fod yr un mor heriol â mathau eraill o aseiniad ac mae angen meddwl o ddifrif ynghylch pa atebion sy'n gywir.

Mae cwestiynau dewis lluosog yn profi eich gwybodaeth am agweddau ffeithiol ar y cwrs. Gall fformat y cwestiynau hyn amrywio. Er enghraifft, gallai rhai ofyn i chi ddewis datganiad cywir o ddetholiad o ddatganiadau. Gallai eraill gyflwyno rhywfaint o wybodaeth i chi, cwestiwn ar sail y wybodaeth honno ac yna ddetholiad o atebion i ddewis ohonynt.

Gan mai dim ond ychydig o wahaniaeth sydd rhwng y detholiad o atebion a roddir i chi weithiau, mae'n hanfodol eich bod yn darllen y cwestiwn yn ofalus. Bydd yn cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen arnoch i wneud y dewis cywir. Fodd bynnag, ceisiwch beidio â threulio gormod o amser ar unrhyw gwestiwn. Os ydych yn debygol o weithio ar gwestiwn drwy gydol y nos, cofiwch efallai mai dim ond cyfran fach o'r marciau cyffredinol y bydd yn cyfrif tuag atynt. Os cewch drafferth gyda chwestiwn penodol, ewch ymlaen at gwestiwn arall gan ddychwelyd ato yn nes ymlaen.

Os yw eich cwrs yn cynnwys aseiniadau a gaiff eu marcio gan gyfrifiadur, dylech gyfeirio at ddeunyddiau eich cwrs i ganfod mwy am sut y gallwch eu cwblhau a'u cyflwyno.

1.6 Aseiniadau ar ddiwedd cwrs

Defnyddir aseiniadau ar ddiwedd cwrs yn lle arholiadau traddodiadol. Y prif wahaniaeth rhwng arholiad ac aseiniad ar ddiwedd cwrs yw y gellir cwblhau'r aseiniad ar ddiwedd cwrs gartref yn hytrach nag mewn neuadd arholiadau ar ddyddiad penodol. Weithiau caiff ei gwblhau yn eich amser eich hun felly gall deimlo ychydig fel aseiniad arferol. Fodd bynnag, gan ei fod yn disodli arholiad, ni allwch lwyddo yn y cwrs heb ei wneud ac mae sgôr eich aseiniad ar ddiwedd y cwrs yn un o'r prif ffactorau a ddefnyddir wrth bennu eich canlyniad ar gyfer y cwrs.

Weithiau mae aseiniadau ar ddiwedd cwrs yn cynnwys gwneud ychydig o waith ymchwil, ac yn achlysurol fe'u gwneir ar y cyd.

Mae'r trefniadau ar gyfer aseiniadau ar ddiwedd cwrs yn amrywio o gwrs i gwrs felly gwnewch yn siŵr eich bod yn cyfeirio at ddeunyddiau eich cwrs am fanylion.

Ewch i http://www.open.ac.uk/skillsforstudy/ i gael mwy o fanylion am y math o aseiniad y mae angen i chi ei ysgrifennu.

2 Camau cynllunio aseiniad

You can experience this free course as it was originally designed on OpenLearn, the home of free learning from The Open University: www.open.edu/openlearn/free-courses.

Paratoi aseiniadau (Preparing assignments)

www.open.edu/openlearn/languages/welsh/paratoi-aseiniadau-preparing-assignments/content-section-0?utm_source=amazon&utm_campaign=ou&utm_medium=e-book

Nid oes un ffordd gywir o ysgrifennu aseiniad. Fodd bynnag, mae rhai egwyddorion a phrosesau cyffredin a fydd yn eich helpu i gadw ar y trywydd cywir wrth ei lunio (gweler Ffigur 1.)



Ffigur 1 Saith cam cynllunio eich aseiniad.

Mae disgyblaethau academaidd gwahanol yn galw am arddulliau a mathau o ysgrifennu gwahanol. Felly darllenwch lawlyfr neu ganllawiau'r aseiniad ar gyfer eich cwrs penodol yn ofalus bob amser, a holwch eich tiwtor os nad ydych yn siŵr am unrhyw beth.

2.1 Creu eich strategaeth eich hun

Mae a wnelo creu eich strategaeth eich hun â gwybod beth yw gofynion asesu'r cwrs a phenderfynu pa ganlyniad rydych am ei gael. Os gwyddoch beth sydd angen ei gael i lwyddo yn y cwrs, a beth sydd angen ei gael er mwyn cael anrhydedd, yna gallwch benderfynu beth sy'n ymarferol i chi. Mae gan rai myfyrwyr fywydau prysur ac nid oes llawer o amser ganddynt. Felly gallant benderfynu ond gwneud yr hyn sydd ei angen er mwyn llwyddo yn y cwrs. Efallai y bydd gan fyfyrwyr eraill fwy o amser a byddant am neilltuo mwy o amser i wneud yn dda mewn asesiadau.

Me gan rai myfyrwyr fywydau prysur ac nid oes llawer o amser ganddynt. Efallai y bydd gan fyfyrwyr eraill fwy o amser a byddant am neilltuo mwy o amser i wneud yn dda mewn asesiadau.

Edrychwch ar galendr eich cwrs am derfynau amser aseiniadau a dechreuwch feddwl am neilltuo'r amser sydd ei angen ar gyfer y gwaith.

Os credwch y cewch broblemau i gyflwyno aseiniad penodol ar amser yna gofynnwch i'ch tiwtor neu ganolfan ranbarthol am gyngor cyn y dyddiad cyflwyno olaf posibl.

Er mwyn gwybod beth yw'r rheolau ar gyfer cyflwyno aseiniadau, sut i reoli eich amser a'ch astudiaethau a ble mae eich canolfan ranbarthol, ewch i http://www.open.ac.uk/skillsforstudy/.

2.2 Gwybod beth sydd ei angen

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod beth sydd angen i chi ei wneud ar gyfer pob aseiniad. Edrychwch ar ddeunyddiau eich cwrs i ganfod pa fath o aseiniad y mae disgwyl i chi ei wneud.

Efallai bod eich aseiniad wedi ei rannu yn adrannau gwahanol, â marciau gwahanol i bob rhan. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod beth sydd angen i chi ei wneud ac nad ydych yn colli unrhyw beth. Efallai y bydd angen i chi wybod beth yw'r terfyn geiriau y dylech gadw ato, oherwydd gallech golli marciau os ewch y tu hwnt i'r terfyn hwn.

> 'Sdim syniad gen i ble i ddechrau. Y tro diwethaf i mi ysgrifennu 'aseiniad oedd yn yr ysgol.'

Cymerwch amser i ddeall beth mae cwestiwn yr aseiniad yn ei ofyn. Gallwch drafod unrhyw gwestiynau sydd gennych am gwestiwn yr aseiniad gyda'ch tiwtor, cynghorydd astudio neu eich cyd-fyfyrwyr.

Cymerwch amser i ddeall beth mae cwestiwn yr aseiniad yn ei ofyn.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw cwestiwn yr aseiniad o'ch blaen drwy gydol y broses o'r dechrau i'r diwedd; bydd cadw eich llygad ar deitl y cwestiwn yn eich helpu i ganolbwyntio'n gywir.

2.3 Trefnu beth i'w wneud

Wrth i chi gasglu eich nodiadau a'r deunyddiau perthnasol ar gyfer y cwrs bydd angen i chi wneud penderfyniadau ynghylch pa bynciau a thystiolaeth rydych am eu defnyddio yn eich aseiniad. Os bydd angen i chi gynnwys dyfyniadau a thystiolaeth yna gwnewch nodyn o'r ffynonellau y maent yn dod ohonynt (e.e., llyfrau neu erthyglau) fel y gallwch lunio eich adran gyfeirio yn haws.

Ceisiwch lunio rhestr neu ddefnyddio map meddwl i drefnu eich deunydd.

Pan fyddwch yn barod i fanylu ar yr hyn rydych am ysgrifennu yn ei gylch, ceisiwch lunio rhestr neu ddefnyddio map meddwl i drefnu eich deunydd yn gynllun. Mae'r broses hon yn eich helpu i wneud dewisiadau am yr hyn sydd angen ei gynnwys, beth nad oes angen ei gynnwys ac ym mha drefn y dylid rhoi'r pwyntiau. Mae cynlluniau yn eich helpu i gadw at y cwestiwn. Ceisiwch gymharu eich cynllun â thasg yr aseiniad i weld a ydych yn mynd i'r cyfeiriad cywir o hyd. Mae cynlluniau hefyd yn gwneud eich proses ddrafftio yn haws gan nad oes angen i chi gadw popeth yn eich pen: yn hytrach gallwch ei ysgrifennu yn eich cynllun (gweler Ffigur 2).

Pan feddyliwch am syniadau ar gyfer eich aseiniad, peidiwch â dal eich hun yn ôl. Rhowch y rhyddid i chi'ch hun nodi'r holl eiriau, ymadroddion, enwau a dyddiadau a ddaw i'ch meddwl.



Ffigur 2 Gall defnyddio map meddwl fod yn ffordd gynhyrchiol o gael eich syniadau i lifo.

Pan feddyliwch am syniadau ar gyfer eich aseiniad, peidiwch â dal eich hun yn ôl. Rhowch y rhyddid i chi'ch hun nodi'r holl eiriau, ymadroddion, enwau a dyddiadau a ddaw i'ch meddwl. Gallwch roi llinell drwyddynt yn nes ymlaen os newidiwch eich meddwl ynghylch pa mor berthnasol ydynt.

2.4 Drafftio

Peidiwch â disgwyl ysgrifennu testun perffaith o'r cychwyn cyntaf. Bydd angen i chi dreulio amser yn ailddarllen ac ailysgrifennu neu aildrefnu eich paragraffau.

2.4.1 Drafft cyntaf

Os ydych yn ysgrifennu traethawd, ystyriwch sut y bydd eich dadl yn datblygu yn eich aseiniad. Dylai eich syniadau ddarllen yn rhesymegol o un i'r llall nes eich bod wedi datblygu thesis cyffredinol eich traethawd. Er mwyn gwneud hyn bydd angen i chi roi'r syniadau gwahanol rydych wedi meddwl amdanynt mewn trefn.

Ystyriwch sut y bydd eich dadl yn datblygu yn eich aseiniad. Dylai eich syniadau ddarllen yn rhesymegol o un i'r llall.

Ceisiwch ysgrifennu eich syniadau ar ochr dde darn o bapur a mapiwch bob un i ran benodol o'ch traethawd (gweler Ffigur 3).

Blwch 2

Pan fyddwch yn llunio eich paragraffau, gwnewch yn siŵr eich bod:

- yn disgrifio'r syniad yn glir
- yn rhoi rhesymau am ei berthnasedd i gwestiwn y traethawd.
- yn darparu tystiolaeth i ategu'r syniad.

Gall y dystiolaeth a ddefnyddiwch i ategu eich syniadau fod ar ffurf dyfyniadau uniongyrchol o lyfrau ac erthyglau neu aralleirio syml o ddadl neu ddamcaniaeth rhywun arall. Yn yn naill achos neu'r llall mae'n hanfodol eich bod yn cyfeirio'n briodol at y dystiolaeth a ddefnyddiwch.

Mae angen llif traethiadol ar aseiniadau. Os nad yw prif bwyntiau eich aseiniad yn gysylltiedig â'i gilydd, bydd eich aseiniad yn ymddangos fel petai'n cynnwys rhestr o bwyntiau digyswllt. Mae gwybod sut i ddefnyddio geiriau ac ymadroddion cyswllt (megis

‘fodd bynnag’, ‘serch hynny’, ‘o ganlyniad’) yn rhan hanfodol o ysgrifennu ar gyfer unrhyw gynulleidfa (gweler Adran 5.1).

I weld sut y gallai’r map meddwl yn Ffigur 3 edrych ar ffurf traethawd ac i ddysgu mwy am eiriau cyswllt ewch i http://www. open.ac.uk/skillsforstudy/.



Ffigur 3 Pan fyddwch wedi meddwl am y syniadau rydych am ysgrifennu amdanynt, bydd angen i chi eu rhoi mewn trefn resymegol.

2.4.2 Ail ddrafft

Ar ôl i chi orffen eich drafft cyntaf efallai y gwelwch fod angen i chi wneud llawer o waith pellach arno. Wrth i chi fynd drwy gam yr ail ddrafft bydd angen i chi wirio trefn resymegol eich dadl. Efallai y gwelwch fod angen i chi newid trefn rhai o’r pwyntiau. Fodd bynnag, gwyliwch nad ydych yn gwneud camgymeriadau wrth wneud hyn: er bod torri a phastio mewn prosesydd geiriau yn offeryn defnyddiol mae’n hawdd iawn anwybyddu problemau gyda gramadeg a rhesymeg.

Mae torri a phastio mewn prosesydd geiriau yn offeryn defnyddiol mae’n hawdd iawn anwybyddu problemau gyda gramadeg a rhesymeg.

Ar y cam hwn dylech hefyd fynd drwy eich cyfeiriadau er mwyn gwneud yn siŵr bod manylion pob dyfyniad neu dystiolaeth ategol arall gennych ac nad ydych wedi anghofio unrhyw beth.

I gloi, rhan hanfodol o’r broses ddrafftio yw gwybod pryd i ddod i ben! Mae’n hawdd iawn parhau i olygu eich aseiniad heb weld llawer o fudd.

2.5 Gwirio

Ar ôl i chi orffen drafftio'r cynnwys dylech wirio eich bod wedi cynnwys eich enw a'ch rhif Adnabod Personol ar bob tudalen a bod teitl yr aseiniad neu'r traethawd wedi ei gynnwys. Cyn i chi argraffu eich copi glân terfynol dylech hefyd sicrhau bod y fformadu cywir yn cael ei ddefnyddio, er enghraifft, gofod 1.5 rhwng y llinellau (darllenwch ddeunyddiau eich cwrs am ragor o fanylion) a bod y tudalennau wedi eu rhifo.

Dylech cynnwys eich enw a'ch rhif Adnabod Personol ar bob tudalen a bod teitl yr aseiniad neu'r traethawd wedi ei gynnwys.

Gall sicrhau bod y gramadeg, yr atalnodi a'r sillafu yn gywir eich helpu i wella eich marciau, felly defnyddiwch y rhestr wirio prawfddarllen yn y llyfryn hwn fel canllaw.

Er bod y cam hwn yn bwysig ni ddylech dreulio gormod o amser yn gwirio. Cofiwch adael iddo fynd!

2.6 Cyflwyno'r gwaith

Edrychwch ar ddeunyddiau eich cwrs i weld sut mae disgwyl i chi gyflwyno eich aseiniad a'r dyddiad cyflwyno olaf posibl - gwnewch yn siŵr eich bod wedi caniatáu digon o amser iddo gael ei gyflwyno.

2.7 Cael y gwaith yn ôl

Mae hyn hefyd yn rhan hollbwysig o broses yr aseiniad. Rhan o ddiben hyn yw eich helpu i wella eich sgiliau ar gyfer yr aseiniad nesaf, felly mae darllen yr adborth yn bwysig.

Cymerwch beth amser i fynd drwy sylwadau'r adborth yn ofalus. Nodwch sut y gallwch wella eich marc yn y dyfodol.

Er mai'r peth cyntaf y byddwch am ei weld yw'r marc a gawsoch, cymerwch beth amser i fynd drwy sylwadau'r adborth yn ofalus. Nodwch sut y gallwch wella eich marc yn y dyfodol. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am unrhyw beth a ddywedwyd yn yr adborth, gofynnwch i'ch tiwtor neu gynghorydd astudio.

Ewch i http://www.open.ac.uk/skillsforstudy/ i ddysgu mwy am ddechrau'r broses ysgrifennu. Gallwch ddysgu mwy hefyd am sut i ddechrau'r broses o feddwl, sut i saernïo eich ysgrifennu a dehongli cwestiynau aseiniadau.

3 Deall y cwestiwn

You can experience this free course as it was originally designed on OpenLearn, the home of free learning from The Open University: www.open.edu/openlearn/free-courses.

Paratoi aseiniadau (Preparing assignments)

www.open.edu/openlearn/languages/welsh/paratoi-aseiniadau-preparing-assignments/content-section-0?utm_source=amazon&utm_campaign=ou&utm_medium=e-book

Cyn i chi ddechrau mynd i'r afael â'ch aseiniad, bydd angen i chi sicrhau eich bod yn deall beth y mae'n gofyn i chi ei wneud.

Mae gan bob cwestiwn eiriau allweddol, a bydd eu nodi yn eich helpu i benderfynu beth yw diben yr aseiniad

Mae gan bob cwestiwn eiriau allweddol, a bydd eu nodi yn eich helpu i benderfynu beth yw diben yr aseiniad a beth y mae'n rhaid i chi ei wneud. Mae geiriau allweddol 'cynnwys' yn dweud wrthych am y pynciau y mae'n rhaid canolbwyntio arnynt ac mae geiriau 'proses' yn dweud wrthych beth y mae'n rhaid i chi ei wneud gyda'r cynnwys.

Edrychwch yn ofalus i ddechrau ar y cwestiwn a nodwch y geiriau neu'r ymadroddion allweddol.

3.1 Geiriau cynnwys

Dyma rai enghreifftiau o eiriau cynnwys mewn dau deitl aseiniad.

> Cymharwch eich addysg eich hun hyd yma ag addysg un o'ch rhieni, un o'ch plant (os oes gennych rai) neu ffrind o genhedlaeth wahanol. Pa bwyntiau cymhariaeth sy'n ymddangos yn bwysig i chi a pham?

> Gan ddefnyddio enghreifftiau o astudiaethau achos Jean ac Emma ym Mhennod 5 dangoswch sut y gall yr amgylchedd lleol, yn cynnwys tai, ddylanwadu ar iechyd a lles.

3.2 Geiriau proses

Dyma'r geiriau yn nheitl y cwestiwn sy'n dweud wrthych beth y dylech ei wneud gyda'r cynnwys. Er enghraifft, efallai y byddai rhywun yn gofyn i chi **gymharu** dwy ddamcaniaeth neu **gyfiawnhau** syniadau rhywun. Dangosir rhai o'r geiriau proses mwyaf cyffredin yn y tabl drost y tudalen.

Mae geiriau proses yn nheitl y cwestiwn sy'n dweud wrthych beth y dylech ei wneud gyda'r cynnwys. Er enghraifft, efallai y byddai rhywun yn gofyn i chi gymharu dwy ddamcaniaeth neu gyfiawnhau syniadau rhywun.

Table 1

Cymharu	Dangoswch beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol a dewch i gasgliad efallai ynghylch yr hyn sydd orau.
Cyferbynnu	Canolbwyntiwch ar beth sy'n wahanol, er y gallwch nodi bod rhai pethau yn debyg hefyd.
Beirniadu/ Gwerthuso	Gwnewch ddyfarniad (ond peidiwch â rhoi barn bersonol) ynghylch gwerth damcaniaethau, neu safbwyntiau, neu ynghylch gwirionedd gwybodaeth, wedi ei ategu gan drafodaeth ar y rhesymu dan sylw a chan dystiolaeth o ddeunyddiau'r cwrs.
Diffinio	Rhowch union ystyr gair neu ymadrodd. Mewn rhai achosion efallai y bydd angen i chi roi diffiniadau gwahanol posibl.
Trafod	Eglurwch, yna nodwch ddwy ochr y mater ac unrhyw oblygiadau.
Egluro	Rhowch fanylion am sut a pham y mae hyn yn wir.
Cyfiawnhau	Rhowch resymau dros safbwynt, penderfyniadau neu gasgliadau. Soniwch hefyd am unrhyw brif wrthwynebiadau neu ddadleuon yn eu herbyn.

Dyma deitlau'r cwestiynau hynny eto, a'r tro hwn mae'r geiriau proses mewn print trwm.

> **Cymharwch** eich addysg eich hun hyd yma ag addysg un o'ch rhieni, un o'ch plant (os oes gennych rai) neu ffrind o genhedlaeth wahanol. Pa bwyntiau cymhariaeth sy'n ymddangos yn bwysig i chi **a pham?**

> Gan ddefnyddio enghreifftiau o astudiaethau achos Jean ac Emma ym Mhennod 5 **dangoswch sut** y gall yr amgylchedd lleol, yn cynnwys tai, ddylanwadu ar iechyd a lles.

Fel y gwelwch geiriau cynnwys yw'r rheini sy'n nodi 'cynnwys y cwestiwn. Y geiriau proses yw'r rheini sy'n dweud wrthych beth i'w wneud gyda'r cynnwys. Nodwch fod gair proses ymhlyg ym mrawddeg olaf y cwestiwn cyntaf ond yn y bôn mae'r cwestiwn yn gofyn i chi egluro pam y credwch fod y pwyntiau cymhariaeth rydych wedi eu gwneud yn bwysig: 'Eglurwch pa bwyntiau cymhariaeth sy'n ymddangos yn bwysig i chi a pham?'

4 Cyflwyniadau a chasgliadau

You can experience this free course as it was originally designed on OpenLearn, the home of free learning from The Open University: www.open.edu/openlearn/free-courses.

Paratoi aseiniadau (Preparing assignments)

www.open.edu/openlearn/languages/welsh/paratoi-aseiniadau-preparing-assignments/content-section-0?utm_source=amazon&utm_campaign=ou&utm_medium=e-book

4.1 Cyflwyniadau

Dylai hyd eich cyflwyniad fod yn gymesur â hyd eich traethawd. Dylai fod rhwng pump a deg y cant o gyfanswm nifer y geiriau. Ceisiwch gadw at un paragraff, yn enwedig os yw'r terfyn geiriau o dan 1000 o eiriau. Ar gyfer traethawd hirach, gallwch ysgrifennu sawl paragraff.

Swyddogaeth cyflwyniad yw nodi'r prif gwestiwn neu fater a chyflwyno a diffinio'r geiriau neu'r termau allweddol. Dylech dynnu sylw at y prif ddadleuon sy'n sail i'r cwestiwn a chyfeirio at gamau'r cynnwys neu'r ddadl.

Swyddogaeth cyflwyniad yw nodi'r prif gwestiwn neu fater.

Efallai y byddwch am ysgrifennu'r cyflwyniad cyn i chi ddechrau, ac os felly mae'n syniad da gwirio ac addasu'r geiriad a sicrhau ei fod yn gywir ar ôl i chi ysgrifennu'r drafft cyntaf.

Ar gyfer aseiniadau ar ffurf adroddiad, mae ffordd benodol yn aml o ysgrifennu'r cyflwyniad. Dylid amlinellu nod yr ymchwiliad neu'r arbrawf, gan restru'r amcanion neu'r canlyniadau a fwriedir. Dylech hefyd ddarparu gwybodaeth gefndir er mwyn egluro pam y gwnaed yr ymchwiliad neu'r arbrawf ac efallai nodi'r hyn nad ydych yn bwriadu ysgrifennu amdano - gan nodi felly gwmpas eich adroddiad.

Gorffennwch eich cyflwyniad gyda brawddeg sy'n arwain at gorff eich adroddiad.

4.2 Casgliadau

Dylai eich casgliad ddangos eich bod wedi ateb y cwestiwn a osodwyd ar gyfer yr aseiniad. Gallwch wneud hyn drwy:

- gyfeirio at y geiriau allweddol (proses a chynnwys) yn y teitl

- crynhoi elfennau allweddol eich dadl a phrif gynnwys corff eich traethawd neu adroddiad
- awgrymu efallai (yn enwedig mewn adroddiad) yr hyn sydd angen ei ystyried yn y dyfodol.

Ni ddylai casgliadau fod yn rhy hir. Ar gyfer traethawd neu adroddiad o lai na 1,500 o eiriau mae paragraff cloi o 50-100 o eiriau yn ddigon siŵr o fod. Ni ddylai fod yn hwy na'r cyflwyniad.

Dylai eich casgliad ddangos eich bod wedi ateb y cwestiwn ac hefyd ddangos fod y prif bwyntiau wedi grynhoi.

Ceisiwch osgoi cyflwyno syniadau neu enghreifftiau newydd yn eich casgliad. Cofiwch grynhoi'r prif bwyntiau yn unig a pheidiwch ag ailadrodd enghreifftiau.

5 Ysgrifennu paragraffau

You can experience this free course as it was originally designed on OpenLearn, the home of free learning from The Open University: www.open.edu/openlearn/free-courses.

Paratoi aseiniadau (Preparing assignments)

www.open.edu/openlearn/languages/welsh/paratoi-aseiniadau-preparing-assignments/content-section-0?utm_source=amazon&utm_campaign=ou&utm_medium=e-book

Mae paragraffau yn rhannu'r ysgrifennu yn bynciau neu brif bwyntiau. Dylai pob paragraff gynnwys un prif syniad neu bwnc a dylech fod yn gallu nodi beth ydyw. Dylai'r brawddegau mewn paragraff gyfrannu pwyntiau unigol at y prif syniad hwnnw. Er y bydd yn anodd i chi wybod ar y dechrau efallai ble i ddechrau paragraff newydd, byddwch yn gwella ymhen amser.

Mae dechrau pob paragraff newydd yn nodi newid mewn canolbwynt. Weithiau mae paragraffau yn dechrau gyda 'brawddeg pwnc' i gyflwyno'r canolbwynt newydd, gyda brawddegau dilynol wedyn sy'n ehangu ar y pwnc. Fodd bynnag, weithiau dim ond ar ôl sawl brawddeg y daw pwnc y paragraff newydd yn glir.

Mae paragraffau yn rhannu'r ysgrifennu yn bynciau neu brif bwyntiau.

Gall paragraffau helpu'r darllenwr i nodi datblygiad eich dadl. Pan fydd pob paragraff yn cynnwys prif syniad newydd, bydd gan y darllenwr gliw gweledol o ran pryd y mae eich dadl yn symud i'r cam nesaf.

Gall paragraffau helpu'r darllenwr i nodi datblygiad eich dadl...bydd gan y darllenwr gliw gweledol o ran pryd y mae eich dadl yn symud i'r cam nesaf.

Mae gwallau cyffredin yn cynnwys gwneud pob brawddeg yn baragraff newydd neu, ar ben arall y sbectrwm, anghofio cynnwys unrhyw baragraff o gwbl wrth ysgrifennu. Mae paragraffu gwael yn ei gwneud yn anodd iawn i'ch darllenwr ddilyn eich dadl (gweler Ffigur 4).



Ffigur 4 a) os na fyddwch yn rhoi unrhyw baragraffau yn eich aseiniad bydd eich aseiniad yn edrych fel un bloc hir, parhaus o destun, sy'n ei gwneud yn anodd iawn i chi ei ddarllen. b) Os byddwch yn gwneud pob brawddeg yn baragraff newydd gall hyn wneud i'ch aseiniad edrych a darllen fel rhestr. c) Mae aseiniad wedi ei strwythuro'n dda gyda pharagraffau o faint rhesymol yn amlwg ar unwaith i'r llygad.

Os cewch anhawster i wybod ble i ddechrau paragraff newydd, ceisiwch ddefnyddio mapiau meddwl i helpu i nodi'r rhaniadau rhesymegol yn eich dadl - gall y rhain eich helpu i wahanu eich syniadau oddi wrth ei gilydd. Gallai gwneud nodiadau cryno ar ymylon eich copi drafft eich helpu hefyd i benderfynu ble mae un syniad yn gorffen a'r llall yn dechrau.

5.1 Geiriau cyswllt

Mae geiriau cyswllt yn helpu i wneud i'ch dadl lifo, a phan fyddwch yn gwybod ble mae eich paragraffau yn dechrau ac yn gorffen, byddant yn eich helpu i gysylltu'r syniadau hynny a chreu un cyfanwaith ystyrlon.

Mae paragraffau yn rhannu'r ysgrifennu yn bynciau neu brif bwyntiau.

Mae geiriau cyswllt yn atgoffa'r darllenwr o'r llinyn hyd yma ac yn cyfeirio at yr hyn sydd i ddod yn nes ymlaen (gweler Ffigur 5). Gellir eu defnyddio i

- gysylltu syniadau mewn brawddeg
- cysylltu brawddegau
- cysylltu paragraffau.



Ffigur 5 Mae geiriau cyswllt yn rhan hanfodol o unrhyw waith ysgrifennu.

Ceisiwch ddefnyddio rhai o'r geiriau cyswllt canlynol yn eich aseiniad nesaf.

Table 2

I ychwanegu pwynt	**I gyferbynnu dau bwynt**	**I nodi canlyniadau**
ac …	ond…	oherwydd …
hefyd …	Fodd bynnag …	am ...
Yn ogystal …	er …	gan ...
Yn yr un modd …	Ar y naill law ...	Felly …
Nid yn unig.... ond hefyd....	ar y llaw arall ...	O ganlyniad …
Ymhellach ...	Eto …	O'r herwydd ...
At hynny ...	Serch hynny …	

I roi enghraifft	**I symud ymlaen i'r pwynt nesaf**	**I grynhoi**
er enghraifft …	…	Yn olaf …
hynny yw ...	Yna	I gloi…
sef ...	Ar ôl hyn/hynny …	Y casgliad felly yw ...
	Wedyn ...	I grynhoi...

6 Aralleirio, dyfynnu a chyfeirio

You can experience this free course as it was originally designed on OpenLearn, the home of free learning from The Open University: www.open.edu/openlearn/free-courses.

Paratoi aseiniadau (Preparing assignments)

www.open.edu/openlearn/languages/welsh/paratoi-aseiniadau-preparing-assignments/content-section-0?utm_source=amazon&utm_campaign=ou&utm_medium=e-book

Pryd bynnag y byddwch yn cyfeirio at gyhoeddiad, syniad neu ddamcaniaeth rhywun arall, rhaid i chi gydnabod ffynhonnell y deunydd. Yn eich aseiniadau, disgwylir i chi fel arfer gynnwys gwybodaeth a syniadau o lyfrau cwrs y Brifysgol Agored. NI ddylech byth â gadael i'r darllenwr feddwl eich bod yn hawlio'r syniad neu'r wybodaeth fel eich un chi. Os na fyddwch yn cydnabod y ffynhonnell, ac yn enwedig os byddwch yn copïo'r union eiriau, mae perygl y cewch eich cyhuddo o lên-ladrad.

Pryd bynnag y byddwch yn cyfeirio at gyhoeddiad, syniad neu ddamcaniaeth rhywun arall, rhaid i chi gydnabod ffynhonnell y deunydd..

Cewch wybodaeth fel arfer am osgoi llên-ladrad a'r dull cyfeirio a ffafrir gan eich cwrs yng nghanllawiau eich aseiniad a anfonir gyda deunyddiau eich cwrs.

6.1 Arferion da

Gallwch wneud y gwaith o ysgrifennu aseiniadau ac osgoi llên-ladrad yn haws o lawer drwy fod yn llym o ran arferion gwneud nodiadau. Wrth ddarllen drwy eich deunyddiau, os gwelwch ddyfyniad arbennig o ddefnyddiol neu os byddwch yn aralleirio syniad dylech hefyd gofnodi o ble y daeth. Defnyddiwch y rhestr â phwyntiau bwled isod fel canllaw.

6.2 Cyfeirio

Mae cyfeiriad llawn yn cynnwys cyfeiriad byr yn y testun at bob ffynhonnell, gyda rhestr o'r manylion llawn ar ddiwedd yr aseiniad. Diben cyfeiriad yw galluogi eich darllenwr i ddod o hyd i'r cyhoeddiad gwreiddiol y gwnaethoch dynnu eich tystiolaeth ohono, neu y gwnaethoch seilio eich dadl arno.

Blwch 3

Mae cyfeiriadau fel arfer yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- enw a llythrennau blaen yr awdur
- blwyddyn gyhoeddi
- teitl y bennod a'r llyfr (neu deitl yr erthygl a'r cyfnodolyn)
- enw'r cyhoeddwr
- man cyhoeddi.

Mae union fformat y cyfeiriadau yn amrywio rhwng disgyblaethau a chyrsiau academaidd felly mae'n syniad da gwirio llawlyfr eich aseiniad am wybodaeth am ba fath o ddull cyfeirio a ffafrir. Un canllaw yw gweld sut y cânt eu trin yn y deunyddiau ar gyfer eich cwrs.

6.3 Aralleirio

Bydd y rhan fwyaf o'ch gwaith ysgrifennu ar gyfer aseiniadau yn cynnwys aralleirio gwaith pobl eraill. Mae'n sgil bwysig wrth ysgrifennu gwaith academaidd.

Pan fyddwch yn aralleirio dadl rhywun arall, byddwch yn ailddatgan ei ddadl ond yn eich geiriau chi eich hun. Mae angen i chi egluro eich bod yn adeiladu ar waith rhywun arall. Gallwch wneud hyn yn syml drwy sôn am enw'r awdur, fel yn yr enghraifft ganlynol ac yna restru'r manylion cyfeirio llawn ar ddiwedd yr aseiniad.

Arallirio yw ailddatgan ddadl pobl eraill ond yn eich geiriau chi eich hun.

> Mae Halliday (1978) yn honni bod plant yn datblygu eu hiaith drwy ryngweithio â'r rhai o'u hamgylch.

Un o ganlyniadau terfynol pwysig ysgrifennu syniadau neu gysyniadau yn eich geiriau chi eich hun yw eich bod yn meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r deunydd rydych yn ysgrifennu amdano.

6.4 Dyfynnu

Os gwelwch fod awdur wedi crynhoi dadl mewn ffordd arbennig o argyhoeddiadol, efallai y byddwch am ei ddyfynnu'n uniongyrchol. Pan fyddwch yn dyfynnu union eiriau rhywun, rhowch ei eiriau mewn dyfynodau (' ...').

> Mae Halliday (1978, t.1) yn honni bod 'A child creates, first his child tongue, then his mother tongue, in interaction with that little coterie of people who constitute his meaning group.' ...

Gallwch naill ai roi'r dyfyniad hwn yng nghorff eich testun, fel uchod, neu gallwch ddefnyddio dull arddangos dyfyniad, gan ei wahanu oddi wrth eich testun, a'i osod ar y llinell nesaf a'i fewnosod, ac os felly caiff y dyfynodau eu hepgor fel arfer.

Pan fyddwch yn dyfynnu union eiriau rhywun, rhowch ei eiriau mewn dyfynodau.

Er y gall dyfynodau fod yn ffordd dda o ychwanegu diddordeb at eich ysgrifennu, rhaid i chi fod yn ofalus nad ydych yn dibynnu arnynt ormod. Dylai dyfyniad ategu'r ddadl rydych yn ei gwneud eich hun, ni ddylai wneud y ddadl ar eich rhan.

Dylai dyfyniad ategu'r ddadl rydych yn ei gwneud eich hun. ysgrifennwch y ddadl yn eich geiriau chi eich hun fel tystiolaeth ategol ar gyfer eich dadl.

Camgymeriad cyffredin yw gadael i'r dyfyniad wneud y gwaith esboniadol i gyd, felly cofiwch, ysgrifennwch y ddadl yn eich geiriau chi eich hun a defnyddiwch y dyfyniad yn syml fel tystiolaeth ategol ar gyfer eich dadl.

7 Dewis arddull ysgrifennu

You can experience this free course as it was originally designed on OpenLearn, the home of free learning from The Open University: www.open.edu/openlearn/free-courses.

Paratoi aseiniadau (Preparing assignments)

www.open.edu/openlearn/languages/welsh/paratoi-aseiniadau-preparing-assignments/content-section-0?utm_source=amazon&utm_campaign=ou&utm_medium=e-book

Pan fyddwch yn ysgrifennu mewn arddull academaidd, yr un yw'r diben bob tro: cymryd pwnc a chyflwyno syniadau a rhesymau sy'n ei egluro, gan ddefnyddio geiriau, dyfyniadau, ystadegau, enghreifftiau ymarferol a dynnir o arbrofion neu ddiagramau.

Wrth ysgrifennu mewn arddull academaidd mae angen iddo swnio'n fwy ffurfiol, neu amhersonol, na'r rhan fwyaf o arddulliau ysgrifennu eraill. Fodd bynnag, mae disgyblaethau academaidd yn amrywio yn y modd y defnyddir iaith. Felly gall yr hyn a ddisgwylir gennych yn eich gwaith ysgrifennu wahaniaethu yn dibynnu ar beth rydych yn ei wneud, er enghraifft, cwrs o ddisgyblaeth y celfyddydau neu wyddoniaeth. Y canllaw gorau i'r modd y dylech fynegi eich hun mewn aseiniad yw deunyddiau'r cwrs eu hunain. Edrychwch ar eich llyfrau testun a llawlyfr eich aseiniad.

Y canllaw gorau i'r modd y dylech fynegi eich hun mewn aseiniad yw deunyddiau'r cwrs eu hunain... Darllenwch yr adborth gan eich tiwtor ar eich aseiniadau blaenorol.

> 'Dwi'n mwynhau ysgrifennu, ond mae'n ymddangos bod 'dirgeledd i'r math hwn o ysgrifennu mewn arddull 'academaidd' na alla i ei amgyffred.'

Darllenwch yr adborth gan eich tiwtor ar eich aseiniadau blaenorol. Bydd eich tiwtoriaid yn rhoi arweiniaid i chi ar sut i fireinio eich sgiliau ysgrifennu ar gyfer eich aseiniad nesaf.

Mewn rhai achosion o ysgrifennu ar gyfer gwaith academaidd mae mynegi eich hun yn y person cyntaf yn dderbyniol (e.e. 'Credaf fod...'). Fodd bynnag, gan amlaf mae'r stad oddefol (e.e., 'credir bod...') yn well gan ei bod yn fwy amhersonol a gwrthrychol.

Ysgrifennwch yn gryno drwy hepgor geiriau diangen

Blwch 4

Awgrymiadau ar ddull ysgrifennu a mynegi eich hun yn dda:

- Ceisiwch osgoi iaith lafar ac idiomatig.
- Dysgwch osgoi rhagenwau personol megis 'ni', 'chi'.
- Ceisiwch ddefnyddio iaith wrthrychol. Mae'r canlynol yn ymadroddion defnyddiol: 'Gellir dadlau bod ...', yn hytrach na 'Credaf fod'.
- Ysgrifennwch yn gryno drwy hepgor geiriau diangen, er enghraifft: 'hollol angenrheidiol' (dywedwch 'angenrheidiol'); 'wedi'u cyfuno gyda'i gilydd' (dywedwch 'gyda'i gilydd'); 'Y mwyafrif helaeth' (dywedwch 'y mwyafrif' neu hyd yn oed 'y rhan fwyaf').
- Byddwch yn ymwybodol o derminoleg arbenigol. Weithiau defnyddir geiriau mewn ffyrdd gwahanol a manwl gywir, er enghraifft, defnyddir y geiriau 'llygoden' a

‘ffenestr’ mewn ffordd benodol ym maes cyfrifiadura. Mewn gwyddoniaeth, nid yw ‘toddi’ yn golygu’r un peth â ‘hydoddi’.

- Defnyddiwch thesawrws i’ch helpu i osgoi defnyddio’r ungair yn rhy aml.
- Gwnewch yn siŵr nad yw eich brawddegau yn rhy hir, neu fel arall bydd y darllenwr yn debygol o golli llinyn eich dadl. Dylai fod un syniad ar gyfer pob brawddeg. Os yw brawddeg yn rhy hir efallai eich bod yn ceisio cyfleu gormod o wybodaeth ynddi.
- Defnyddiwch ddyfynodau o amgylch geiriau neu ymadroddion a ddefnyddiwch mewn ffordd anarferol neu ddadleuol.

8 Gwella eich Cymraeg ysgrifenedig

You can experience this free course as it was originally designed on OpenLearn, the home of free learning from The Open University: www.open.edu/openlearn/free-courses.

Paratoi aseiniadau (Preparing assignments)

www.open.edu/openlearn/languages/welsh/paratoi-aseiniadau-preparing-assignments/content-section-0?utm_source=amazon&utm_campaign=ou&utm_medium=e-book

Mae llawer o fyfyrwyr yn poeni ynghylch mynegi eu hunain yn gywir ac yn glir mewn aseiniadau. Mae datblygu arddull ysgrifennu dda yn cymryd blynyddoedd o ymarfer weithiau.

8.1 Ysgrifennu ar gyfer y brifysgol

Er bod Cymraeg academaidd yn wahanol i Gymraeg ysgrifenedig bob dydd, mae'r gallu i ysgrifennu mewn arddull academaidd yn rhywbeth a ddysgwch wrth i chi astudio yn y brifysgol. Peidiwch â disgwyl gallu ysgrifennu Cymraeg academaidd nes eich bod wedi darllen nifer o ddeunyddiau eich cwrs, dysgu rhai o'r termau a dechrau ysgrifennu am eich pwnc.

Ar ddechrau eich astudiaethau ni fydd disgwyl i chi gynhyrchu aseiniadau wedi eu hysgrifennu'n berffaith. Mae cyrsiau lefel 1 wedi eu paratoi fel eu bod yn eich helpu i ddechrau ysgrifennu ar gyfer y brifysgol a bydd eich tiwtor yn eich helpu i ddatblygu eich sgiliau ysgrifennu.

Wrth i chi symud ymlaen i gyrsiau Lefel 2 a Lefel 3 bydd disgwyl i'ch sgiliau ysgrifennu aseiniadau wella. Cewch arweiniaid o hyd ar sgiliau ysgrifennu lle bo angen, fodd bynnag, bydd yr adborth yn canolbwyntio mwy ar gynnwys eich aseiniad yn hytrach na'ch sgiliau ysgrifennu sylfaenol.

Mae'r wefan Skills for OU Study yn rhoi canllawiau ar gwblhau aseiniadau ar lefel prifysgol.

8.2 Gramadeg, sillafu ac atalnodi

Mae llawer o adnoddau defnyddiol ar gael os ydych yn poeni am eich gramadeg a'ch sillafu. Dewch o hyd i eiriadur cynhwysfawr a thesawrws i'ch helpu i wirio sillafu a dod o hyd i eiriau newydd i'w defnyddio - mae rhai ar gael ar-lein. Gall y cyfleuster gwirio sillafu yn eich prosesydd geiriau fod yn ddefnyddiol iawn, ond byddwch yn ofalus ynghylch dibynnu ar y gwiriwr sillafu yn ddifeddwl gan fod angen i chi fod yn siŵr bod y gair cywir yn ei le.

Mae'r wefan Skills for OU Study yn cynnwys cysylltiadau â gwefannau defnyddiol i'ch helpu gyda sillafu a gramadeg.

8.3 Eich tiwtor a'ch swyddfa ranbarthol

Bydd adborth ar eich aseiniadau yn eich helpu i ddatblygu eich sgiliau ysgrifennu. Darllenwch y sylwadau yn ofalus. Byddant yn eich helpu i ddatblygu eich sgiliau wrth gyfleu eich syniadau. Cymerwch amser i gyfeirio'n ôl at yr hyn a wnaethoch yng ngoleuni'r adborth ac edrychwch i weld a allwch gymhwyso'r cyngor hwnnw i'r aseiniad nesaf. Peidiwch â cholli marciau yn ddiangen drwy ailadrodd gwallau y gallwch eu cywiro'n hawdd. Os nad ydych yn siŵr ynghylch unrhyw un o'r sylwadau, neu sut yr oeddent yn effeithio ar eich marciau, gofynnwch i'ch tiwtor am eglurhad. Gallech hefyd gysylltu â'r tîm Cymorth i Ddysgwyr yn eich canolfan ranbarthol; gall gynnig gweithdai sgiliau dysgu neu hyd yn oed sesiynau unigol i'ch helpu i wella.

Bydd adborth ar eich aseiniadau yn eich helpu i ddatblygu eich sgiliau ysgrifennu.

Y camau nesaf

Ar ôl i chi gwblhau'r uned hon, efallai yr hoffech astudio uned OpenLearn arall. Dyma ychydig awgrymiadau:

LDT_5 Sgiliau ysgrifennu traethodau ac adroddiadau

GSG_1 Beth yw ysgrifennu da?

LDT_3 Gweithio gyda siartiau, graffiau a thablau

Awgrym: daliwch Ctrl i lawr a chliciwch ar ddolen i'w hagor mewn tab newydd.

Os hoffech astudio'n ffurfiol gyda'r Brifysgol Agored efallai yr hoffech fynd i'r gwefannau canlynol.

Keep on learning

Study another free course

There are more than **800 courses on OpenLearn** for you to choose from on a range of subjects.

Find out more about all our free courses.

Take your studies further

Find out more about studying with The Open University by visiting our online prospectus.

If you are new to university study, you may be interested in our Access Courses or Certificates.

What's new from OpenLearn?

Sign up to our newsletter or view a sample.

For reference, full URLs to pages listed above:

OpenLearn – www.open.edu/openlearn/free-courses

Visiting our online prospectus – www.open.ac.uk/courses

Access Courses – www.open.ac.uk/courses/do-it/access

Certificates – www.open.ac.uk/courses/certificates-he

Newsletter – www.open.edu/openlearn/about-openlearn/subscribe-the-openlearn-newsletter

Acknowledgements

Don't miss out:

If reading this text has inspired you to learn more, you may be interested in joining the millions of people who discover our free learning resources and qualifications by visiting The Open University - www.open.edu/openlearn/free-courses